

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

01/2016


DYDDIAD CYHOEDDI:

18/01/2016

[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

# Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg

## Adroddiad Ton 1: Crynodeb Gweithredol



Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg  
Adroddiad Ton 1: Crynodeb Gweithredol

Arad Research



Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hayley Collicott

Yr Is-Adran Theuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: [Hayey.Collicott@wales.gsi.gov.uk](mailto:Hayey.Collicott@wales.gsi.gov.uk)

ISBN: 978-1-4734-5712-6

© Hawlfraint y Goron 2016



Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

## Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Hawl gofal plant	Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, am 2 awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth fod ar gael i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol.
Hawl EHV	Mae'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu un Ymwelydd Iechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant dan 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli llwyth achosion is na'r gwasanaeth cyffredinol a'i ddiben yw sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei ddarparu i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Prif swyddogaeth Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yw cynorthwyo'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran risg uchel, canolig ac isel) a gwneud cyfeiriadau priodol.
FSID	Rhifau Adnabod Dechrau'n Deg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol er mwyn nodi rhieni a phlant y maent yn gymwys i gael gwasanaethau Dechrau'n Deg.
Teuluoedd mewn angen Uchel/ Canolig/Isel	Teuluoedd sy'n cael eu diffinio gan dîm Dechrau'n Deg eu hawdurdod lleol fel rhai y mae angen cymorth arnynt ar lefel uchel/canolig/isel. Mae'r union ddiffiniadau o'r lefelau angen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond maent yn ystyried ffactorau megis problemau iechyd, amddifadedd, oedran y rhiant, iaith ac argaeledd rhwydweithiau cymorth. Yn yr adroddiad hwn, caiff lefel angen y teulu ei chynnwys wrth ymyl dyfyniadau er mwyn rhoi cyd-destun i sefyllfa y teulu

	(pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil).
HV	Ymwelydd Iechyd
Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is	Ardaloedd daearyddol bach a ddefnyddir er mwyn casglu a chyhoeddi ystadegau am ardaloedd bach. Fe'u defnyddir ar draws Ystadegau Gwladol ac fel rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015a) yn benodol.
Hawl rhianta	Rhaid i bob teulu sy'n cynnwys plentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae modd i hwn fod mewn grwpiau neu mewn sefyllfa un-i-un yn y cartref, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, gan ddibynnu ar yr angen. Caiff y cynnig rhianta ei seilio ar y 3 thema ganlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar</li> <li>• dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo rhieni agored i niwed</li> <li>• rhaglenni er mwyn cynorthwyo rhieni gyda rhianta cadarnhaol.</li> </ul>
Hawl SLC	Hawl Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig amrediad o gyfleoedd i fanteisio ar grwpiau a chyrsgiau (e.e. iaith a Chwarae), yn ogystal â chymorth gan Therapyddion Iaith a Lleferydd a staff eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith a lleferydd. Yn flaenorol, galwyd yr hawl SLC yn hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) (tan 2015) ac fe'i galwyd yn hawl iaith a Chwarae yn flaenorol hefyd. Newidiwyd hawl ELD i 'Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015. Mae Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ddisgrifiad ehangach ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i blant fod yn gyfathrebwyr cymwys a hyderus.

---

SLT	Therapi/Therapydd Iaith a Lieferydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff SLT trwy Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae modd i deuluoedd gael eu cyfeirio gan staff Dechrau'n Deg i wasanaethau SLT cyffredinol hefyd.
Teuluoedd Ton 1, 2 neu 3	Teuluoedd sy'n cael eu cyfweld yn ystod y tri cham blyneddol, neu donnau ymchwil. Ton 1 (yn 2015), 2 (2016) neu 3 (yn 2017).

---

## **Crynodeb gweithredol**

1. Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg. Cynhelir yr astudiaeth hydredol hon mewn tri cham (a ddisgrifir fel Tonnau 1, 2 a 3) rhwng 2015 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Ton 1 y gwaith ymchwil, ar sail y gwaith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Hydref 2015.
2. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhan allweddol o Agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae Dechrau'n Deg yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant i'w bywydau. Mae'n canolbwyntio ar nodi'r angen ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad ieithyddol, datblygiad gwybyddol a datblygiad cymdeithasol ac emosïynol plant, ynghyd â'u hiechyd corfforol. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig pedair prif elfen: gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig; gofal plant rhan-amser ac o ansawdd uchel am ddim i blant 2-3 oed; y cyfle i fanteisio ar gymorth rhianta; a chymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).

### **Nodau'r gwaith ymchwil**

3. Nodau'r prosiect hwn yw:
  - deall profiadau teuluoedd o raglen Dechrau'n Deg; a
  - nodi unrhyw effeithiau amlwg y rhaglen ar deuluoedd Dechrau'n Deg.

4. Mae'r ymchwil yn rhoi sylw i'r cwestiynau canlynol:
- Sut mae rhieni yn ymgysylltu gyda gwasanaethau Dechrau'n Deg a beth sy'n helpu ac sy'n tarfu ar y gweithgarwch ymgysylltu?
  - Sut mae rhieni yn penderfynu pa hawl(iau) y byddant yn ymgysylltu gyda nhw a phryd?
  - Ym mha ffyrdd y bydd rhieni yn cael profiad o wahanol hawliau Dechrau'n Deg (h.y. ymweliadau iechyd estynedig, gofal plant, SLC, cymorth rhianta)?
  - Beth yw disgwyliadau rhieni o raglen Dechrau'n Deg?
  - I ba raddau y mae rhieni yn barnu bod Dechrau'n Deg wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
  - Sut mae Dechrau'n Deg yn ymwneud â gwasanaethau eraill (gan gynnwys ysgolion/rhaglenni cymorth i deuluoedd eraill/gwasanaethau iechyd? Er enghraifft, a cheir penghreifftiau lle y mae Dechrau'n Deg yn 'cyfeirio' at wasanaethau eraill, a beth yw canlyniadau hyn?
  - Pa mor dda y mae rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y rhaglen wedi nodi ac ymateb i anghenion a dymuniadau teuluoedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?
  - Beth, os o gwbl, y mae rhieni yn barnu yw effeithiau'r rhaglen ar gyfer eu teulu nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir?

### **Trosolwg o'r dull ymchwil**

5. Nod y gwaith ymchwil yw ymweld â theuluoedd ar dair adeg yn ystod eu cyswllt gyda rhaglen Dechrau'n Deg. Mae Ton 1 yr astudiaeth (2015) wedi cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweiliadau gyda theuluoedd a chwe chyfweiliad gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Mai a mis Hydref 2015 ac mae'n cynnig y sail ar gyfer yr adroddiad cyntaf hwn. Bydd yr ail

(2016) a'r drydedd (2017) Don yn cynnwys cyfweiliadau gyda theuluoedd o'r don gyntaf pan fo modd, yn ogystal â sampl 'atodol' er mwyn disodli unrhyw deuluoedd nad oes modd iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad arall.

### **Canfyddiadau**

6. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r teuluoedd a gyfweilwyd yn fodlon gyda'u profiadau o ymgysylltu gyda gwasanaethau a ddarparir dan bob un o hawliau Dechrau'n Deg. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar o leiaf un agwedd ar ddatblygiad eu plentyn a'u gwybodaeth nhw ynghylch rhianta, a'u hymagwedd tuag ato.

### **Ymgysylltu a disgwyliadau**

7. Roedd gan fwyafrif y teuluoedd a wnaeth gymryd rhan yng nghyfweliadau Ton 1 ddealltwriaeth fras o nodau Dechrau'n Deg a'r rheswm pam eu bod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen. Roedd eu Hymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg wedi cyflwyno'r rhieni i'r Rhaglen. Roedd hanner y rhieni wedi manteisio ar yr hawl Rhianta (naill ai trwy grŵp, cwrs neu gymorth un-i-un a ddarparir yn y cartref). Roedd tua hanner wedi manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg (er nad oedd pob rhiant yn gymwys i fanteisio ar yr elfen Gofal Plant eto). Adroddodd rhai rhieni eu bod wedi manteisio ar amrediad o wasanaethau dan yr hawl SLC: cyrsiau a sesiynau; grwpiau canu a chwarae; a chymorth un-i-un.
8. Roedd rhesymau rhieni dros ymgysylltu gyda'r Rhaglen yn cynnwys:
  - dysgu sgiliau newydd neu gael gwybodaeth;
  - cymdeithasu gyda rhieni eraill;
  - galluogi eu plentyn i gymdeithasu gyda phlant eraill;
  - helpu gyda datblygiad eu plentyn;



- profiadau cadarnhaol blaenorol o fynychu grwpiau neu gyrsiau;
  - rhoi'r amser iddynt i wneud pethau eraill (e.e. tasgau o gwmpas y tŷ);
  - perthnasoedd cadarnhaol gyda staff Dechrau'n Deg.
9. Disgrifiodd rhai rhieni resymau pam nad oeddent wedi ymgysylltu gyda gwahanol elfennau'r rhaglen. Roedd y rhwystrau rhag ymgysylltu yn cynnwys:
- nad oeddent yn teimlo bod angen y gwasanaethau a gynigir arnynt, neu nad oeddent yn gweld bod y gwasanaethau yn berthnasol i ddatblygiad eu plentyn;
  - canfyddiad bod y gwasanaethau ar gyfer rhieni plant y mae ganddynt faterion ymddygiadol neu ddatblygiadol penodol;
  - canfyddiad nad oedd eu plentyn yn barod i fanteisio ar y gwasanaethau eto;
  - y ffaith nad oedd lleoliadau neu amseriadau'r ddarpariaeth yn gyfleus;
  - diffyg hyder neu ofn y byddai staff ac aelodau eraill y grŵp yn eu 'barnu'.

## **Profiadau**

10. Isod, rydym yn adrodd profiadau rhieni o bob un o'r hawliau yn annibynnol. Fodd bynnag, mae natur holistig y Rhaglen yn golygu ei bod yn bwysig cydnabod y cydgysylltiadau rhwng hawliau, a chyfyngiadau dadansoddi profiadau o un hawl ar wahân i'r lleill. Er enghraifft, gallai gweithgareddau y maent yn rhan o'r hawliau SLC gael eu darparu o fewn lleoliadau Gofal Plant neu drwy'r Ymweliadau Iechyd Estynedig, heb i rieni fod yn ymwybodol o hyn. Dylid cofio hyn wrth adolygu'r canfyddiadau.

11. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o rieni yn fodlon gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd dan bob un o'r hawliau, ac yn cynnig enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol a darpariaeth effeithiol gwasanaethau. Yn gyffredinol, roedd gan rieni safbwyntiau cadarnhaol am staff, lleoliadau, cyfleusterau a gweithgareddau a ddarparir trwy'r Rhaglen.
12. Roedd y rhan fwyaf o rieni yr oeddent yn manteisio ar yr hawl Rhianta yn fodlon gydag ansawdd y cymorth neu'r cyngor, cynnwys y cyrsiau, ymagwedd y staff a'r trefniadau ymarferol. Roedd rhieni yr oeddent wedi manteisio ar gymorth un-i-un yn y cartref yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn ac roedd ganddynt safbwyntiau cadarnhaol amdano. Adroddodd rhai rhieni eu bod wedi manteisio ar amrediad o gyrsiau ac roedd y mwyafrif o'r farn bod y cynnwys wedi bod yn berthnasol i'w hanghenion.
13. Roedd gan y rhan fwyaf o rieni yr oeddent wedi manteisio ar yr hawl SLC safbwyntiau cadarnhaol am y cyngor a'r cymorth yr oeddent wedi'i gael neu'r grwpiau a'r cyrsiau yr oeddent wedi eu mynychu. Adroddodd mwyafrif y rhieni sylwadau cadarnhaol am y cyfleusterau a'r lleoliadau a ddefnyddiwyd, yn ogystal â'r adnoddau atodol a ddarparwyd i rieni (e.e. bagiau llyfrau). Roedd rhai rhieni yn ystyried bod y grwpiau a'r sesiynau SLC yn gyfle i fanteisio ar gyngor a chymorth anffurfiol gan staff a rhieni eraill. Roedd nifer fach y rhieni yr oeddent wedi manteisio ar gymorth Therapi Iaith a Lleferydd wedi cael profiadau cadarnhaol o'r cymorth hwn, ac mae eu sylwadau yn awgrymu bod Therapyddion Iaith a Lleferydd a staff eraill Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol er mwyn cynorthwyo datblygiad plant y teuluoedd hyn.
14. Mynegodd rhieni safbwyntiau cadarnhaol ynghylch Gofal Plant Dechrau'n Deg, gan gyfeirio at nifer o agweddau penodol ar yr hawl, gan gynnwys: cyfathrebu da rhwng staff a rhieni; lleoliadau hygyrch; cyfleusterau da; ansawdd y staff, pa mor hawdd oedd hi i droi atynt a pha mor ymatebol oeddent; a'r ffaith bod darpariaeth ddwyieithog a

chyfrwng Cymraeg ar gael. Nododd rhai rhieni bod gofal plant Dechrau'n Deg yn cymharu'n ffafriol gyda darpariaeth nad yw'n rhan o raglen Dechrau'n Deg ac roedd rhai yn teimlo bod gofal plant Dechrau'n Deg yn 'fwy strwythuredig' na darpariaeth arall. Cyfeiriodd rhai rhieni at enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth rhwng staff gofal plant Dechrau'n Deg a staff sy'n darparu hawliau eraill (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd).

15. Roedd gan y rhan fwyaf o rieni safbwyntiau cadarnhaol am wahanol agweddau ar yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig, gyda sylwadau yn ymwneud â'r ansawdd da a chanlyniadau cadarnhaol canfyddedig y cyngor a'r cymorth a roddir. Roedd rhieni yn fodlon gydag amlder y cyfleoedd i droi at Ymwelwyr Iechyd, a chyfeiriodd tua hanner ohonynt at y ffaith bod modd troi at y staff, eu bod yn ymatebol a'u bod yn hyblyg. Roedd yr hawl yn bodloni disgwyliadau y rhan fwyaf o rieni, gyda rhai yn adrodd bod eu Hymwelydd Iechyd wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Roedd y ffyrdd yr oedd Ymwelwyr Iechyd wedi rhagori ar ddisgwyliadau yn cynnwys: helpu rhieni i lenwi ffurflenni neu geisiadau; cael cyswllt gyda gweithwyr iechyd proffesiynol; treulio mwy o amser gyda nhw nag yr oeddent wedi disgwyl; a chynorthwyo'r rhiant gyda'u hiechyd neu eu lles eu hunain (e.e. cymorth gyda materion iechyd meddwl).
16. Yn gyffredinol, mynegodd rhieni farn gadarnhaol am y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg trwy'r Rhaglen. Nid oedd y rhan fwyaf o rieni yn dymuno manteisio ar wasanaethau Cymraeg. Fodd bynnag, adroddodd rhai rhieni bod angen iddynt allu troi at staff y byddai modd iddynt gynnig cyngor a chymorth yn Gymraeg, yn ogystal â gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn gyffredinol, roedd y rhieni hyn yn teimlo y bu modd iddynt fanteisio ar y gwasanaethau Cymraeg yr oedd angen iddynt eu cael. Fodd bynnag, adroddodd nifer fach o rieni yr oeddent yn dymuno manteisio ar wasanaethau Cymraeg na fu'r rhain ar gael oherwydd diffyg staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu oherwydd bod y ddarpariaeth yn rhy bell i ffwrdd. Roedd gan rieni safbwyntiau cadarnhaol am

ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ac am y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn achlysurol mewn lleoliadau gofal plant (e.e. caneuon a rhigymanu).

### **Canlyniadau ac effeithiau canfyddedig**

17. Adroddodd teuluoedd ystod o ganlyniadau ac effeithiau canfyddedig yn ystod y cam cyntaf hwn o gyfweiliadau. Mae'n werth nodi bod nifer o'r teuluoedd a gyfweilwyd yn ystod y don gyntaf o 72 o gyfweiliadau wedi dechrau ymgysylltu gyda Dechrau'n Deg yn ddiweddar. O'r herwydd, mae'n rhesymol disgwyl y bydd effaith y rhaglen ar deuluoedd yn cynyddu gydag amser.
18. Roedd y rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i o leiaf ryw agwedd ar ddatblygiad eu plentyn. Caiff enghreifftiau eu cynnwys isod dan bum thema a amlygwyd trwy'r gwaith ymchwil:
  - Siarad a chyfathrebu
    - e.e. bod yn fwy siaradus; dysgu a defnyddio geiriau newydd (gan gynnwys geiriau Cymraeg); siarad yn fwy clir; deall a defnyddio geiriau hirach; bod yn fwy hyderus wrth ryngweithio gydag eraill; a gwranddo mwy;
  - Darllen a chyfrif
    - e.e. mwy o ddiddordeb mewn edrych ar lyfrau; yn gallu canolbwyntio ar lyfrau am gyfnod hwy; yn gallu gwranddo ar straeon yn well;
  - Materion ymarferol
    - e.e. gwelliannau mewn patrymau cysgu; brwsio dannedd; yfed o gwpan; dal neu ddefnyddio cyllell a fforc; dal pensil; gwisgo; tacluso;
  - Ymddygiad ac agwedd

- e.e. mwy o hyder; yn gallu cymdeithasu yn well; cymryd tro; mwy o wydnwch; llai o stranciau; gwell rheolaeth dros ddieter;
  - Iechyd a lles
    - e.e. bwydo ar y fron am gyfnod hwy; bwyta'n iachach; dealltwriaeth well o wybodaeth gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill; adnabod materion iechyd yn gynharach.
19. Yn ogystal, adroddwyd amrediad o effeithiau canfyddedig ar rieni eu hunain o ran eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymagwedd tuag at rianta. Isod, rydym yn amlinellu'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o ran yr effeithiau ar rieni:
- Siarad a chyfathrebu
    - e.e. mwy o syniadau ar gyfer SLC a gweithgareddau chwarae; gwneud cyswllt llygad; rhoi cyfleoedd i'w plentyn i siarad yn gyntaf; defnyddio caneuon a rhigymau a ddysgwyd trwy'r Rhaglen.
  - Darllen a chyfrif
    - e.e. defnyddio llyfrau yr oeddent wedi eu cael trwy'r Rhaglen; treulio mwy o amser yn darllen i'w plentyn; rhoi cyfleoedd i'w plentyn i droi tudalennau llyfrau;
  - Materion ymarferol
    - e.e. amgylchedd cysgu; amseriadau a phatrymau cysgu; bwydo ar y fron; rhoi bath; diogelwch yn y cartref; diddyfnu; dysgu sut i ddefnyddio'r toiled; deiet a phatrymau amser bwyd;
  - Ymddygiad ac agwedd
    - e.e. defnyddio mwy o iaith gadarnhaol; canmol ymddygiad da; defnyddio Siartiau Sêr er mwyn cymell ymddygiad da;

- Iechyd a lles
  - e.e. yn fwy tawel eu meddwl; yn fwy hyderus; yn llai gofidus; aelwyd dawelach; llai ynysig; adnabod materion sy'n ymwneud ag iechyd rhieni yn gynharach; mwy o amser ar gyfer gweithgareddau eraill.

20. O ystyried natur sampl yr astudiaeth (canolbwyntio ar rieni yr oedd eu plentyn ieuengaf dan 30 mis oed), efallai nad yw'n peri syndod bod nifer o rieni yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i farnu a yw Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar eu plentyn. Fodd bynnag, mae natur hydredol yr astudiaeth hon yn cynnig cyfle i ailystyried y materion hyn gyda rhieni yn 2016 a 2017 wrth i'w plentyn ddatblygu ac wrth iddynt symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen.